# ARCHWILIAD DIABETES CENEDLAETHOL – CRYNODEB I GLEIFION

**Rydym am helpu pobl â diabetes i gael y gofal gorau.**

I wneud hyn, mae eich meddyg teulu yn rhannu *ychydig bach* o'ch gwybodaeth fel y gall y GIG ddysgu sut i wella gofal diabetes.

---

## Pa wybodaeth sy'n cael ei rhannu?

Dim ond ychydig o fanylion mae eich meddyg teulu yn eu rhannu:

- Eich rhif GIG
- Eich cod post
- Eich rhyw adeg eich geni
- Eich dyddiad geni
- Cod eich practis meddyg teulu

NID yw eich enw yn cael ei rannu.

---

## Pam mae eich gwybodaeth yn cael ei rhannu?

Mae rhannu hyn yn helpu'r GIG i wneud y canlynol:

- Gweld sut mae pobl â diabetes yn cael gofal
- Dysgu beth sy'n gweithio'n dda
- Dod o hyd i ffyrdd o wneud gofal yn well i bawb

NID yw'r adroddiadau maen nhw'n eu gwneud yn dangos pwy ydych chi.

---

## Ydy eich gwybodaeth yn ddiogel?

Ydy Cedwir eich gwybodaeth:

- Yn ddiogel ar gyfrifiaduron diogel
- Dim ond staff hyfforddedig sy'n ei gweld
- Wedi'i anfon yn ddiogel rhwng timau'r GIG

---

**Pwy sy'n defnyddio'r wybodaeth?**

- Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) sy'n casglu'r data
- Mae GIG Lloegr yn astudio'r data ac yn llunio adroddiadau

O 2026 ymlaen, bydd IGDC hefyd yn cael rhywfaint o wybodaeth yn ôl i helpu i wella gofal yng Nghymru.

---

**Eich hawliau**

Gallwch wneud y canlynol:

- Gofyn am weld y wybodaeth amdanoch chi
- Gofyn am gywiro camgymeriadau
- Gofyn cwestiynau i'ch meddyg teulu am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio
- Gofyn i'ch meddyg teulu beidio â rhannu eich data at ddibenion yr Archwiliad Diabetes Cenedlaethol*

---

**Neges allweddol**

Mae eich meddyg teulu yn rhannu darnau bach, diogel o wybodaeth i helpu'r GIG i wneud gofal diabetes yn well i chi a phawb arall.  Ni chaiff eich enw ei rannu byth.

*Dim ond i sicrhau buddion cyhoeddus drwy wella gwasanaethau a sicrhau bod adnoddau’n cael eu targedu yn y lleoedd cywir ac ar yr adegau cywir y caiff gwybodaeth ei rhannu. Os bydd llawer o bobl yn penderfynu peidio â chaniatáu i'w gwybodaeth gael ei rhannu, mae'n cael effaith ar ansawdd y dadansoddiad y gellir ei gynnal. Gobeithiwn eich bod yn hapus i'ch gwybodaeth gael ei rhannu ond rydym yn parchu eich hawl i ddewis. Siaradwch â'ch meddygfa os oes gennych bryderon ynghylch sut a pham mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.